GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board




# Diweddariad am y brechlyn
# Vaccination Update



*Cylchlythyr Wythnosol* *Weekly Newsletter* CYHOEDDIAD 19: wythnos **24/05/2021**

## Cynnydd Wythnosol (17 - 24 Mai)



**Rydym bellach wedi rhoi cyfanswm o 577,572 o frechlynnau** (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos) ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd. Rydym bellach wedi brechu 75% o bobl rhwng 30-39 oed, 92% o ail ddosiau i'r rheiny sy'n 65 oed a hŷn ac wedi brechu 43% o bobl rhwng 18-20 oed.

## Diweddariad ar ail ddosau

Rydym yn gwneud cynnydd da iawn gydag 2il ddosau o'r brechlyn ac ar hyn o bryd rydym yn brechu'r rheiny rhwng 60-64 oed.

Mae meddygon teulu wedi dechrau rhoi'r 2il ddos o'r brechlyn i'r rheiny gyda chyflyrau iechyd sylfaenol yng ngrŵp 6, gydag oddeutu 85% o'r rheiny sy'n hynod fregus yn glinigol wedi cael eu 2il ddos.

Bydd unrhyw un a dderbyniodd eu dos cyntaf yn eu meddygfa meddyg teulu rhwng mis Ionawr a mis Ebrill yn cael gwahoddiad i ddod yn ôl i dderbyn eu 2il ddos. Bydd y Canolfannau Brechu Torfol yn rhoi'r 2il ddosau i'r rheiny a gafodd wahoddiad i'r Ganolfan Brechu Torfol yn y lle cyntaf, wrth barhau i frechu gweddill y boblogaeth gyda'r dos 1af.

Bydd ein timau symudol yn parhau i frechu'r unigolion hynny mewn cartrefi gofal, yn yr ysbyty ar hyn o bryd, a'r rheiny nad ydynt yn gallu gadael y cartref, tra bydd ein tîm allgymorth yn parhau i gynnal sesiynau ar gyfer ein poblogaeth sy'n fwy anodd ei chyrraedd.

Os derbynioch eich dos 1af o Pfizer rhwng 7 Rhagfyr 2020 – 21 Mawrth 2021 ac nid ydych wedi cael gwahoddiad ar gyfer eich ail ddos eto, cwblhewch y ffurflen ganlynol ar ein gwefan: https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/pfizer-first-dose-between-07-12-2020-and-21-03-2021-but-not-received-notification-of-second-dose/

Os derbynioch eich dos 1af o AstraZeneca rhwng 4 Ionawr 2021 – 21 Mawrth 2021 ac nid ydych wedi cael gwahoddiad ar gyfer eich 2il ddos eto, cwblhewch y ffurflen ganlynol ar ein gwefan: https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/astrazeneca-first-dose-between-04-01-2021-and-21-03-2021-but-not-received-notification-of-second-dose/

## FFIGYRAU BRECHU

(hyd at 24/05/2021)

**Cyfanswm nifer y brechlynnau Covid-19 wedi eu rhoi ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos)**

# 577,572

**Cyfanswm y dos cyntaf 394,367**

**Cyfanswm yr ail ddos 183,205**

| | | |
|---|---|---|
| **Pobl 65 oed a'n hŷn** | 96% | 92% |
| **Grŵp 6 (Agored i Niwed)** | 88% | 38% |
| **Pobl 60-64 mlwydd oed** | 93% | 37% |
| **Pobl 55-59 mlwydd oed** | 91% | 30% |
| **Pobl 50-54 mlwydd oed** | 89% | 24% |
| **Pobl 40-49 mlwydd oed** | 84% | -- |
| **Pobl 30-39 mlwydd oed** | 75% | -- |
| **Pobl 18-29 mlwydd oed** | 43% | -- |

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.
*Gyda'n gilydd byddwn yn cadw Gwent yn ddiogel.*

## Llwyddiant y Clinig Brechu Galw Heibio



Ddydd Sadwrn 22 Mai, cynaliasom sesiwn frechu pop-yp yn y Tŷ Cymunedol, Ffordd Eton, Casnewydd, yn targedu pobl dros 40 oed nad oedd wedi cael eu dos cyntaf o'r brechlyn. Bu'r sesiwn hon yn llwyddiant ysgubol gyda 135 o bobl o gymunedau gwahanol yn mynychu i gael eu brechiad. Llwyddasom hefyd i drefnu apwyntiadau i unrhyw un a oedd dan 40 oed ac a oedd yn gallu mynychu ein canolfan frechu yng Nghanolfan Casnewydd.

Os ydych yn 25 a'n hŷn a nad ydych wedi cael eich dos cyntaf o'r brechlyn, llenwch y ffurflen ganlynol: https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/aged-25-and-above-and-not-received-your-covid-19-vaccination-appointment/






## Os ydych chi wedi cael eich brechlyn

Mae'n cymryd amser i'ch corff ddatblygu amddiffyniad ar ôl unrhyw frechlyn.**Mae'n bwysig eich bod yn parhau i ddilyn yr holl ganllawiau diogelwch** i amddiffyn eich hun. Hyd yn hyn, nid ydym yn gwybod a fydd y brechlyn Covid-19 yn eich atal chi rhag cael eich heintio â'r

Am ragor o wybodaeth, ac i ganfod ym mha grŵp blaenoriaeth ydych chi, ewch i: https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-30-december-2020

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan: https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i: https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/

## Trefn Brechlynnau

| | |
|---|---|
| 80 oed a hŷn | Meddygfeydd Meddyg Teulu |
| 72-79 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 70-71 oed | Meddygfeydd |
| Grŵp 4 | Meddygfeydd |
| 65-69 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 60-64 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 55-59 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 52-54 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 50-51 oed | Meddygfeydd |
| 18-49 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| Yn Gaeth i'r Tŷ | Timau Symudol |
| Grŵp 6 | Meddygfeydd |




### Cyrhaeddwch yn brydlon

Peidiwch â dod mwy na 5 munud yn gynnar i'ch apwyntiad os gwelwch yn dda. Er ein bod yn gwerthfawrogi eich prydlondeb ar gyfer eich apwyntiad, gall cyrraedd yn rhy gynnar achosi traffig.